Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Healthcare Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu ar gyfer Gofal Iechyd Annibynnol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

## Becky's Beauty & Holistics, Llanelli

**Dyddiad yr arolygiad:** 05 Mai 2026

**Dyddiad cyhoeddi:** 05 Awst 2026

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau amgen gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copi o bob adroddiad, pan gaiff ei gyhoeddi, ar gael ar ein **gwefan** neu drwy gysylltu â ni:


| | |
|---|---|
| **Yn ysgrifenedig:** | Rheolwr Cyfathrebu<br>Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru<br>Llywodraeth Cymru<br>Parc Busnes Rhyd-y-car<br>Merthyr Tudful<br>CF48 1UZ |

| | | |
|---|---|---|
| **Neu:** | Ffôn: | 0300 062 8163 |
| | E-bost: | agic@llyw.cymru |
| | Gwefan: | www.agic.org.uk |


**ISBN Digidol 978-1-80853-069-2**

**© Hawlfraint y Goron 2026**



# Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw rheoleiddiwr ac arolygiaeth annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

## Ein Diben

Rydym yn gwirio diogelwch ac ansawdd gofal iechyd ledled Cymru.

## Ein Gwerthoedd

Rydym yn rhoi pobl wrth wraidd yr hyn a wnawn.

**Rydym yn:**

**Annibynnol** – rydym yn ddiduedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud.

**Gwrthrychol** – rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth.

**Pendant** – rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws.

**Cynhwysol** – rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith.

**Cymesur** – rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae ei angen fwyaf.

## Ein Gweledigaeth

Dyfodol lle mae gofal iechyd yng Nghymru yn ddiogel, yn effeithiol ac o ansawdd uchel i bawb.

## Ein Blaenoriaethau

**Rhoi Pobl yn Gyntaf** – Byddwn yn canolbwyntio ar y risgiau mwyaf y mae pobl a chymunedau yn eu hwynebu wrth iddynt ddefnyddio gwasanaethau gofal iechyd nawr ac yn y dyfodol.

**Dysgu a Gweithio Gyda'n Gilydd** – Byddwn yn cydweithio â phartneriaid er mwyn rhannu gwersi a ddysgwyd ac ysgogi gwelliannau parhaus.

**Buddsoddi yn Ein Pobl** – Byddwn yn sicrhau bod ein pobl yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi, eu gwerthfawrogi a'u grymuso.

**Cymryd Camau sydd o Bwys** – Byddwn yn cymryd camau i wella ansawdd a diogelwch gofal iechyd ar gyfer dyfodol Cymru.



# Cynnwys


1. Yr hyn a wnaethom ........................................................................ 5

2. Crynodeb o'r arolygiad ................................................................... 6

3. Yr hyn a nodwyd gennym ................................................................. 9

   Ansawdd Profiad y Claf ...................................................................... 9

   Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol ................................................ 12

   Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth ........................................ 16

4. Y camau nesaf ................................................................................ 18

Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad 19

Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith ............................................ 21

Atodiad C – Cynllun gwella .............................................................. 22

# 1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein gwefan.

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Becky's Beauty & Holistics ar 05 Mai 2026.

Cynhaliwyd yr arolygiad gan ddau arolygydd gofal iechyd AGIC.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom wahodd y cleifion i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Cwblhawyd cyfanswm o naw holiadur. Gwnaethom hefyd siarad â'r staff a oedd yn gweithio yn y gwasanaeth yn ystod ein harolygiad. Mae'r adborth a rhai o'r sylwadau a gawsom yn ymddangos yn yr adroddiad.

Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.

Noder bod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

# 2. Crynodeb o'r arolygiad

## Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Cafwyd ymatebion cadarnhaol gan y cleifion a ymatebodd i holiadur AGIC am eu profiad yn y lleoliad. Dywedodd pawb a ymatebodd i holiadur AGIC fod y gwasanaeth a ddarperir yn ‘dda iawn’.

Roedd cleifion yn cael eu trin ag urddas a pharch, gydag ymgyngoriadau yn cael eu cynnal yn breifat a mesurau ar waith i gynnal cyfrinachedd. Gwelsom nad oedd polisi hebryngwyr ar waith ar adeg yr arolygiad, ond cafodd hyn ei ddatrys ar y diwrnod.

Roedd cleifion yn cael gwybodaeth glir am driniaethau, gan gynnwys risgiau a manteision. Roedd ymgyngoriadau cyn triniaeth a phrofion croen yn cael eu cynnal fel mater o drefn.

Er bod trefniadau ar waith i gefnogi cyfathrebu a hygyrchedd, roedd angen gwneud gwelliannau i sicrhau bod pob claf yn cael copi o'r canllaw i gleifion. Roedd adborth gan gleifion yn cael ei ddefnyddio i lywio gwelliannau i'r gwasanaeth, gan ddangos dull ymatebol o ddarparu gofal.

Rydym yn argymell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Sicrhau bod pob claf yn cael copi o'r canllaw i gleifion.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd gwybodaeth hybu iechyd dda yn cael ei rhoi yn ystod ymgyngoriadau
- Roedd cydsyniad yn cael ei geisio'n gyson.

## Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Ar y cyfan, roeddem o'r farn bod y lleoliad yn darparu gofal diogel ac effeithiol mewn amgylchedd glân a threfnus. Roedd trefniadau iechyd a diogelwch priodol ar waith, gan gynnwys tystysgrifau trydanol cyfredol, asesiad risg tân, a darpariaeth cymorth cyntaf addas. Nodwyd bod angen gwneud rhai gwelliannau mewn perthynas â diogelwch rhag tân yn ystod yr arolygiad, ac aethpwyd i'r afael â nhw yn brydlon, ond nid oedd tystiolaeth o ymarferion tân rheolaidd ar gael.

Roedd y trefniadau atal a rheoli heintiau yn addas, ac roedd cyfleusterau a pholisïau priodol ar waith; fodd bynnag, roedd angen gwneud gwelliannau er mwyn sicrhau bod gweithgareddau glanhau ac archwiliadau yn cael eu dogfennu'n gyson. Gwelsom fod trefniadau diogelu ar waith.

Roedd y cyfarpar laser yn cael ei gynnal a'i gadw'n briodol a'i gefnogi gan Gynghorydd Diogelu rhag Laserau, a gwelsom dystiolaeth o hyfforddiant staff a gwiriadau cyn triniaeth. Fodd bynnag, roedd angen gwella'r broses o ddogfennu gwiriadau diogelwch rheolaidd ac elfennau o gofnodion cleifion.

Rydym yn argymell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Rhoi proses i ddogfennu gweithgareddau glanhau ar waith
- Rhoi archwiliadau atal a rheoli heintiau ar waith
- Rhoi cofrestr cleifion ar waith a sicrhau bod cofnodion yn gyflawn.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Cynnal amgylchedd glân a diogel
- Roedd addasiadau risg addas ar waith.

## Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom fod y gwasanaeth yn cael ei reoli gan un rheolwr cofrestredig a oedd yn gyfrifol am bob agwedd ar lywodraethu, arwain a darparu gwasanaethau. Roedd dogfennaeth allweddol, gan gynnwys tystysgrif yswiriant atebolrwydd cyhoeddus a thystysgrif cofrestru AGIC wedi'u harddangos yn briodol i gleifion. Roedd amrywiaeth o bolisïau a gweithdrefnau ar waith a oedd yn cael eu hadolygu'n flynyddol, ac er i ni nodi rhai bylchau, aethpwyd i'r afael â nhw yn ystod yr arolygiad.

Gwelsom fod gweithdrefn gwyno ar waith, gyda phrosesau clir ar gyfer rheoli pryderon. Dangosodd y rheolwr cofrestredig gymwysterau, hyfforddiant a gwiriadau priodol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd i ymgymryd â'r rôl.

Roedd wedi cwblhau'r hyfforddiant diweddaraf ym mhob maes gofynnol, gan gynnwys diogelwch rhag laserau a diogelu. Fodd bynnag, nid oedd systemau ffurfiol ar waith i fonitro dyddiadau adnewyddu hyfforddiant a gwnaethom gynghori'r rheolwr cofrestredig i ystyried rhoi'r systemau hyn ar waith.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd gweithdrefn gwyno addas ar waith
- Roedd hyfforddiant priodol ar waith.

# 3. Yr hyn a nodwyd gennym

## Ansawdd Profiad y Claf

### Adborth gan gleifion

Cyn ein harolygiad, gwahoddwyd y lleoliad i ddosbarthu holiaduron AGIC i gleifion er mwyn cael eu barn ar y gwasanaethau a ddarperir yn y clinig. Cafwyd cyfanswm o naw holiadur wedi'u cwblhau. Dywedodd pawb a ymatebodd i holiadur AGIC fod y gwasanaeth a ddarperir yn 'dda iawn'.

Roedd sylwadau'r cleifion yn cynnwys y canlynol:

> "Ymgynghoriad da. Trylwyr a gwybodus iawn. Roeddwn yn teimlo'n gyfforddus iawn."
>
> "Mae'r gwasanaeth bob amser yn rhagorol ac mae popeth yn cael ei drafod yn dda ymlaen llaw ac yn ystod y driniaeth."
>
> "Glân – Proffesiynol – Cyfeillgar."

### Hybu, diogelu a gwella iechyd

Dywedwyd wrthym fod y lleoliad yn hyrwyddo ffyrdd iach o fyw yn ystod y broses ymgynghori ac fel rhan o'r cyngor ôl-ofal a roddir i gleifion. Roedd y staff yn trafod gwybodaeth am ofal y croen, cyngor ar Ffactor Amddiffyn rhag yr Haul (SPF), cymeriant alcohol, cymeriant dŵr ac ymarfer corff, a gwybodaeth benodol i anghenion y claf.

### Urddas a pharch

Yn ystod yr arolygiad, roeddem o'r farn bod y staff yn gyfeillgar ac yn groesawgar. Dywedwyd wrthym fod drws yr ystafell laser yn cael ei gadw ar gau yn ystod y triniaethau. Roedd pob ymgynghoriad yn cael ei gynnal yn yr ystafell drin ac ni allai unrhyw un arall glywed sgyrsiau.

Nid oedd polisi hebryngwyr ar waith yn y lleoliad; cafodd hyn ei ddatrys ar ddiwrnod yr arolygiad. Ceir rhagor o wybodaeth am hyn yn Atodiad A. Dywedwyd wrthym fod y staff yn rhoi gwybod i gleifion na ellid trefnu hebryngwr oherwydd y risgiau sy'n gysylltiedig â thriniaethau laser a'r ffaith nad oedd digon o sbectolau amddiffynnol ar gael.

### Gwybodaeth i gleifion a chydsyniad cleifion

Gwelsom fod polisi cydsynio i driniaeth addas ar waith yn y lleoliad. Dywedwyd wrthym fod triniaethau'n cael eu hesbonio'n llawn yn ystod yr ymgynghoriad a bod cydsyniad ysgrifenedig yn cael ei ddogfennu gyda llofnodion cleifion.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion pum claf. Roedd ffurflenni cydsynio wedi'u llofnodi ar gael ar gyfer pob un o'r pum claf, a gwelsom dystiolaeth bod eu hanes meddygol wedi'i ddogfennu a'i wirio eto yn ystod pob triniaeth ar lafar. Dywedwyd wrthym fod risgiau a manteision triniaethau yn cael eu trafod â chleifion yn ystod y broses ymgynghori, a bod gwybodaeth bellach yn cael ei rhoi mewn taflenni.

Dywedodd pob claf a ymatebodd i'r holiadur ei fod wedi llofnodi ffurflen gydsynio cyn cael triniaeth.

## Cyfathrebu'n effeithiol

Roedd Datganiad o Ddiben a chanllaw i gleifion ar waith yn y lleoliad ac ar gael i gleifion ar gais, naill ai ar bapur neu'n electronig. Roedd y Datganiad o Ddiben yn cynnwys y wybodaeth a oedd yn ofynnol gan Reoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011. Fodd bynnag, dywedwyd wrthym nad oedd pob claf yn cael copi o'r canllaw i gleifion.

**Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod pob claf yn cael copi o'r canllaw i gleifion.**

Dywedwyd wrthym nad oedd yr aelod o staff yn y practis yn gallu siarad Cymraeg. Pe bai cleifion am siarad Cymraeg neu pe bai angen iddynt ddefnyddio unrhyw iaith arall, byddai cyfieithydd yn cael ei drefnu.

Gwelsom fod polisi darparu gwybodaeth i gleifion cyfredol ar waith. Roedd gwybodaeth i gleifion ar gael mewn fformatau amgen, megis print bras, ar gais, a gellid cyfathrebu drwy e-bost hefyd. Roedd cleifion nad oedd ganddynt ddyfeisiau digidol yn gallu ffonio'r lleoliad neu ddod i'r lleoliad eu hunain i drefnu apwyntiad.

## Cynllunio a darparu gofal

Dywedwyd wrthym fod cleifion yn cael ymgynghoriad llawn wyneb yn wyneb. Yn ystod yr ymgynghoriad, roedd y staff yn trafod opsiynau triniaeth, cost triniaeth, a'r risgiau a'r manteision ar lafar. Dywedwyd wrthym fod profion croen yn cael eu cynnal cyn triniaeth a bod hanes meddygol y claf yn cael ei ddogfennu. Dywedwyd wrthym fod gwybodaeth am ôl-ofal yn cael ei rhoi i gleifion ar ôl triniaeth ar lafar, a bod gwybodaeth ysgrifenedig hefyd yn cael ei rhoi.

Dywedodd pawb a ymatebodd i'r holiadur eu bod wedi cael prawf croen cyn cael triniaeth newydd, a'u bod wedi cael digon o wybodaeth i ddeall yr holl opsiynau triniaeth ynghyd â'r risgiau a'r manteision.

## Cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol

Gwnaethom ofyn am gael gweld polisi cydraddoldeb ac amrywiaeth ar ddiwrnod yr arolygiad. Roedd cyfeiriadau at y wybodaeth hon mewn polisïau eraill, ond nid oedd

polisi cydraddoldeb ac amrywiaeth penodol ar waith. Aethpwyd i'r afael â'r mater hwn ar ddiwrnod yr arolygiad. Ceir rhagor o wybodaeth am hyn yn Atodiad A.

Roedd polisi bwlio ac aflonyddu ar gael yn y lleoliad. Dywedwyd wrthym fod pob claf oedd yn mynychu'r lleoliad yn cael ei drin yn gyfartal. Dywedwyd wrthym fod hawliau cleifion trawsryweddol yn cael eu cynnal, a bod cleifion yn gallu cofnodi eu henwau a'u rhagenwau a ffefrir.

Dywedodd pawb a ymatebodd i holiadur AGIC nad oeddent wedi wynebu unrhyw wahaniaethu wrth gysylltu â'r gwasanaeth neu ei ddefnyddio.

### Ymgysylltu â dinasyddion a'u hadborth

Roedd cleifion yn cael eu hannog i adael adolygiadau drwy lwyfannau ar-lein, ac roedd negeseuon awtomataidd yn cael eu hanfon drwy'r system trefnu apwyntiadau yn gofyn am adborth. Roedd adborth hefyd yn cael ei gasglu ar lafar yn ystod apwyntiadau.

Gwelsom fod y gwasanaeth yn adolygu adborth gan gleifion ac yn ei ddefnyddio i gefnogi gwelliannau. Roedd crynodeb o'r adborth a gasglwyd dros y 6 i 12 mis blaenorol wedi'i gwblhau. O ganlyniad i adborth gan gleifion, roedd y gwasanaeth wedi cyflwyno apwyntiadau ychwanegol gyda'r nos i ddiwallu anghenion cleifion yn well.

# Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

## Yr Amgylchedd

Gwelsom fod y lleoliad yn lân ac wedi'i addurno i safon dda. Gwelsom fod pob ardal wedi'i goleuo'n dda ac yn edrych yn fodern. Roedd camerâu diogelwch ar waith yn y lleoliad ac roedd hysbysiad wedi'i arddangos yn rhoi gwybod i gleifion am hyn. Roedd systemau diogelwch addas hefyd yn cael eu defnyddio ar gyfer y drysau a'r ffenestri.

## Rheoli risg ac iechyd a diogelwch

Dywedwyd wrthym nad oedd unrhyw nwy yn cael ei ddefnyddio ar y safle. Roedd tystysgrif gosodiadau trydanol ar gael a gwblhawyd yn ystod y pum mlynedd diwethaf, a gwelsom hefyd dystysgrifau Profion Offer Cludadwy (PAT).

Gwnaethom edrych ar y trefniadau diogelwch rhag tân yn y lleoliad a gwelsom fod asesiad risg tân addas ar waith a oedd yn cael ei adolygu'n flynyddol. Gwelsom fod diffoddwyr tân ar gael yn y lleoliad a oedd yn cael eu newid bob blwyddyn. Gwelsom dystiolaeth wedi'i dogfennu o brofion rheolaidd ar y cyfarpar synhwyro tân. Gwelsom fod arwyddion ar gyfer yr allanfa dân wedi'u gosod mewn mannau priodol yn y lleoliad, a bod llwybrau priodol ar gyfer dianc rhag tân. Fodd bynnag, gwnaethom nodi nad oedd unrhyw gyfarwyddiadau i'w dilyn pe bai tân, ac nad oedd arwyddion 'dim smygu' wedi'u harddangos. Aethpwyd i'r afael â'r mater hwn ar ddiwrnod yr arolygiad; Ceir rhagor o fanylion yn Atodiad A. Gwnaethom nodi hefyd nad oedd tystiolaeth bod ymarferion tân yn cael eu cynnal.

**Rhaid i'r rheolwr cofrestredig roi proses ar waith i gynnal ymarferion tân yn rheolaidd, gan ddogfennu tystiolaeth.**

Gwelsom asesiad risg iechyd a diogelwch y lleoliad a oedd wedi'i gwblhau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Roedd yr asesiad risg iechyd a diogelwch yn dangos nad oedd rhai camau gweithredu wedi'u cwblhau o hyd. Cawsom sicrwydd gan y rheolwr cofrestredig fod cynlluniau ar waith i gwblhau'r camau gweithredu hyn.

Gwelsom fod staff sydd wedi cwblhau hyfforddiant cymorth cyntaf priodol yn y lleoliad, a bod pecyn cymorth cyntaf ar gael yn hawdd. Roedd yr holl eitemau sy'n ofynnol mewn pecyn cymorth cyntaf yn bresennol ac yn gyfredol.

## Atal a rheoli heintiau a dihalogi

Roedd yr ystafell laser yn lân i bob golwg, ac nid oedd unrhyw annibendod. Roedd y cyfarpar a'r dodrefn wedi'u gwneud o ddefnyddiau y gellid eu sychu'n hawdd. Roedd lefelau addas o gyfarpar diogelu personol (PPE) ar gael, ac roedd cyfleusterau golchi dwylo ar gael yn yr ystafell drin.

Gwnaethom ofyn am gael gweld tystiolaeth o amserlenni glanhau. Cawsom restr wirio o

dasgau glanhau a oedd yn cael ei defnyddio i gyfeirio ati; fodd bynnag, nid oedd tystiolaeth wedi'i dogfennu o waith glanhau ar gael.

**Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod gwaith glanhau rheolaidd yn yr ystafell drin yn cael ei ddogfennu.**

Gwelsom fod polisi atal a rheoli heintiau a dihalogi addas ar waith. Gwelsom fod contract ar waith ar gyfer casglu a gwaredu gwastraff yn ddiogel, a bod unrhyw wastraff a oedd yn aros i gael ei gasglu yn cael ei storio y tu allan i'r adeilad.

Gwnaethom ofyn am gael gweld copi o archwiliad atal a rheoli heintiau y lleoliad; fodd bynnag, dywedwyd wrthym nad oedd unrhyw archwiliadau ar gael.

**Rhaid i'r rheolwr cofrestredig roi archwiliadau atal a rheoli heintiau ar waith i'w cwblhau yn rheolaidd.**

## Diogelu plant a diogelu oedolion agored i niwed

Roedd y lleoliad wedi'i gofrestru i drin cleifion 18 oed a throsodd. Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig i'r lleoliad gydymffurfio â hyn ar ddiwrnod yr arolygiad. Dywedwyd wrthym na allai plant fod yn bresennol yn yr adeilad pan oedd triniaeth laser yn cael ei chynnal.

Gwelsom dystiolaeth bod siart lif diogelu oedolion a chwythu'r chwiban ar waith a bod cysylltiadau lleol ar gael pe bai pryder ynghylch diogelu. Fodd bynnag, gwnaethom nodi nad oedd polisi diogelu penodol ar waith. Cafodd hyn ei ddatrys ar ddiwrnod yr arolygiad. Ceir rhagor o wybodaeth yn Atodiad A.

Gwelsom dystiolaeth bod y rheolwr cofrestredig wedi cwblhau hyfforddiant lefel 3 ar ddiogelu, a ystyrir yn arfer gorau.

## Dyfeisiau, cyfarpar a systemau diagnostig meddygol

Gwelsom fod y peiriant laser yn y lleoliad yn cyfateb i'r un a gofrestrwyd ag AGIC, a bod y peiriant wedi cael ei galibradu a'i wasanaethu yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr. Gwelsom dystiolaeth bod contract cyfredol ar waith gyda chynghorydd diogelu rhag laserau. Nid oedd y Cynghorydd Diogelu rhag Laserau wedi ymweld â'r safle ond roedd wedi cwblhau gwiriadau drwy luniau. Roedd adroddiad wedi'i ddarparu a oedd yn cynnwys rheolau lleol ac asesiadau risg. Cawsom hefyd gopi o brotocolau meddygol priodol ar gyfer y peiriant a ddefnyddir.

## Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Pan nad oedd y peiriant laser yn cael ei ddefnyddio, roedd y cebl pŵer yn cael ei dynnu a'i gloi'n ddiogel mewn ardal i ffwrdd o'r peiriant. Roedd arwydd ar ddrws yr ystafell drin yn rhoi gwybod i eraill bod peiriant laser yn cael ei ddefnyddio yn yr ystafell, a gan mai

dim ond un aelod o staff oedd yn y lleoliad, roedd yr adeilad yn cael ei gloi er mwyn cyfyngu ar fynediad yn ystod triniaeth.

Gwnaethom ofyn am gael gweld y sbectolau amddiffynnol a ddefnyddir gan y gweithredwr a'r claf pan fydd triniaethau laser yn cael eu cynnal. Dangoswyd dwy sbectol amddiffynnol i ni a oedd ar gael i'w defnyddio gan y gweithredwr, a gorchuddion llygaid blacowt ar gyfer y claf. Gwelsom fod pob un ohonynt mewn cyflwr da ac yn cael eu cynnal a'u cadw'n briodol. Dywedwyd wrthym fod sbectolau amddiffynnol yn cael eu harchwilio a'u glanhau cyn eu defnyddio; fodd bynnag, nid oedd tystiolaeth i ddangos hyn.

**Rhaid i'r rheolwr cofrestredig ddogfennu'r gwiriadau a gaiff eu cwblhau ar y sbectolau amddiffynnol a'r gorchuddion llygaid cyn rhoi triniaeth.**

Dywedwyd wrthym fod gwiriadau sicrhau ansawdd yn cael eu cynnal ar y peiriant laser cyn pob triniaeth, megis gwirio'r lens cyn ei defnyddio. Fodd bynnag, nid oedd hyn yn cael ei ddogfennu.

**Rhaid i'r rheolwr cofrestredig ddogfennu bod gwiriadau'n cael eu cwblhau ar y peiriant laser cyn rhoi triniaeth.**

Roedd y rheolwr cofrestredig a oedd yn gweithredu'r peiriant laser wedi cwblhau hyfforddiant ar gyfer y peiriant penodol. Gwelsom dystiolaeth yng nghofnodion y cleifion fod gwiriadau cyn triniaeth wedi cael eu cynnal, fel prawf croen 48 awr cyn y driniaeth.

## Cymryd rhan mewn gweithgareddau gwella ansawdd

Gwnaethom ofyn am weld tystiolaeth o weithgareddau gwella ansawdd a gynhaliwyd gan y lleoliad. Dywedwyd wrthym fod adborth gan gleifion yn cael ei fonitro'n rheolaidd er mwyn sicrhau ansawdd y gwasanaeth a ddarperir.

## Rheoli cofnodion

Gwelsom fod cofnodion y cleifion wedi'u dogfennu ar bapur ac yn ddigidol ar system y lleoliad, sef 'Timely'. Roedd gan y rheolwr cofrestredig ei fanylion mewngofnodi ei hun ar gyfer y system, a oedd wedi'i diogelu gan gyfrinair, ac roedd cofnodion papur yn cael eu storio'n ddiogel mewn cabinet ffeilio y gellir ei gloi.

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion pum claf a gwelsom eu bod yn ddarllenadwy ac yn hawdd eu deall. Gwelsom fod enw'r claf, ei hanes meddygol, dyddiad y driniaeth, yr ardal a gafodd ei thrin, a'r paramedrau mwyaf perthnasol wedi'u cofnodi. Fodd bynnag, gwnaethom nodi bod angen gwella'r meysydd canlynol:

- Nid oedd nifer y dosau wedi'i gofnodi
- Nid oedd llofnod gan y person a awdurdododd y driniaeth
- Nid oedd manylion am effeithiau andwyol wedi'u cynnwys.

Gwelsom hefyd, er bod gwybodaeth wedi'i chofnodi yn ffeiliau cleifion unigol, nad oedd cofrestr triniaethau ar waith ar gyfer y peiriant laser.

**Rhaid i'r rheolwr cofrestredig roi cofrestr triniaethau ar waith a chynnwys yr holl wybodaeth sydd ei hangen yn nodiadau cleifion.**

Gallai'r staff ddisgrifio'r broses ar gyfer gwaredu cofnodion, gan gynnwys cyfnodau cadw data.

# Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

## Fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd

Roedd Becky’s Beauty and Holistics yn cael ei redeg gan y rheolwr cofrestredig, a oedd hefyd yn berchen arno, ac nid oedd unrhyw aelodau eraill o staff. Y rheolwr cofrestredig oedd unig weithredwr y peiriant laser.

Roedd tystysgrif yswiriant atebolrwydd cyhoeddus a thystysgrifau cofrestru AGIC y lleoliad wedi'u harddangos mewn ardal lle y gallai cleifion eu gweld yn hawdd.

Gwelsom bolisïau a gweithdrefnau addas yn y ffolder rheoli a oedd yn cael eu hadolygu'n flynyddol. Fodd bynnag, fel y nodwyd yn flaenorol yn yr adroddiad, nid oedd rhai polisïau ar gael, ac ymdriniwyd â hyn ar ddiwrnod yr arolygiad.

## Delio â phryderon a rheoli digwyddiadau

Gwelsom fod gweithdrefn gwyno addas ar waith a oedd yn cynnwys manylion y person cyfrifol a'r amserlenni ar gyfer cydnabod cwynion. Roedd manylion cyswllt AGIC hefyd ar gael pe bai claf o'r farn nad oedd y mater wedi'i ddatrys. Pe bai claf am fynegi pryder, roedd y weithdrefn gwyno ar gael yng Ngweithdrefn Weithredu Safonol y lleoliad a'r canllaw i gleifion, a gellid ei darparu ar gais. Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym nad oedd wedi cael unrhyw gwynion ffurfiol.

## Arferion recriwtio a chyflogi’r gweithlu

Gan mai'r rheolwr cofrestredig oedd perchennog ac unig aelod o staff y lleoliad laser, nid oedd unrhyw bolisi recriwtio ar waith. Dywedwyd wrthym nad oedd y rheolwr cofrestredig yn bwriadu cyflogi unrhyw staff yn y dyfodol. Gwelsom dystiolaeth bod gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd wedi'i gwblhau ar gyfer y rheolwr cofrestredig, a thystiolaeth o gymwysterau perthnasol ar gyfer y rôl.

## Cynllunio’r gweithlu, hyfforddiant a datblygiad sefydliadol

Dywedwyd wrthym fod y rheolwr cofrestredig yn cymryd perchnogaeth dros ei dyddiadur a'i horiau gwaith ei hun. Os na allai gynnal unrhyw apwyntiadau am ba reswm bynnag, byddai'n gwneud pob ymdrech i gysylltu â'r cleientiaid i roi gwybod iddynt na fyddai eu triniaeth yn cael ei chynnal y diwrnod hwnnw.

Ar ddiwrnod yr arolygiad, gwnaethom ofyn am gael gweld cofnodion hyfforddiant y rheolwr cofrestredig. Gwelsom dystiolaeth o hyfforddiant cyfredol ar gyfer craidd gwybodaeth, hyfforddiant ar gyfarpar laser penodol, atal a rheoli heintiau, ymwybyddiaeth o ddiogelwch tân, iechyd a diogelwch, a diogelu i'r lefel ofynnol. Gwnaethom nodi nad oedd gan y rheolwr cofrestredig unrhyw ffordd o fonitro

dyddiadau dod i ben hyfforddiant ac fe'i cynghorwyd i roi matrics hyfforddiant ar waith.

# 4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

# Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen ymdrin â'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

| Pryderon uniongyrchol a nodwyd | Yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion | Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder | Sut cafodd y pryder ei ddatrys |
|---|---|---|---|
| Nid oedd polisi hebryngwyr ar waith. | Gall diffyg polisi hebryngwyr wneud i gleifion deimlo'n agored i niwed, ac efallai na fyddant yn ymwybodol o'r cymorth a allai fod ar gael, gan effeithio ar eu hurddas a'u cysur. | Codwyd hyn gyda'r rheolwr cofrestredig. | Rhoddodd y rheolwr cofrestredig bolisi ar waith ar ddiwrnod yr arolygiad. |
| Nid oedd polisi cydraddoldeb ac amrywiaeth ar waith. | Gall diffyg polisi cydraddoldeb ac amrywiaeth gynyddu'r risg y caiff cleifion eu trin yn anghyson neu'n annheg. | Codwyd hyn gyda'r rheolwr cofrestredig. | Rhoddodd y rheolwr cofrestredig bolisi ar waith ar ddiwrnod yr arolygiad. |
| Nid oedd unrhyw gyfarwyddiadau i'w dilyn pe bai tân, ac nad oedd arwyddion 'dim smygu' wedi'u harddangos. | Heb gyfarwyddiadau clir, efallai na fydd staff a chleifion yn gwybod sut i ymateb mewn argyfwng, a gall diffyg arwyddion 'dim smygu' gynyddu tebygolrwydd digwyddiadau tân. | Codwyd hyn gyda'r rheolwr cofrestredig. | Archebodd y rheolwr cofrestredig arwyddion ar ddiwrnod yr arolygiad a chawsant eu gosod yn fuan ar ôl yr arolygiad. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Nid oedd polisi diogelu penodol ar waith. | Gall diffyg polisi diogelu ffurfiol arwain at anghysondeb wrth ymdrin â phryderon am ddiogelu, a allai arwain at oedi neu ymatebion amhriodol a allai olygu bod cleifion yn wynebu risg o niwed. | Codwyd hyn gyda'r rheolwr cofrestredig. | Rhoddodd y rheolwr cofrestredig bolisi diogelu ar waith ar ddiwrnod yr arolygiad i'w ddefnyddio gyda'r siart lif diogelu. |

# Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith

## Gwasanaeth: Becky's Beauty and Holistics

## Dyddiad yr arolygiad: 05 Mai 2026

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiffyg cydymffurfio sy'n ymwneud â diogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n nodi'r camau brys y mae'n eu cymryd.

| Yr hyn sydd angen ei wella | | Safon / Rheoliad | Camau gweithredu gan y gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| 1. | | | | | |
| **Canfyddiadau:** | Ni nodwyd unrhyw faterion uniongyrchol yn ymwneud â diffyg cydymffurfio yn ystod yr arolygiad hwn. | | | | |

# Atodiad C – Cynllun gwella

## Gwasanaeth: Becky's Beauty and Holistics

## Dyddiad yr arolygiad: 05 Mai 2026

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

| | Risg/canfyddiad/mater | Yr hyn sydd angen ei wella | Safon / Rheoliad | Camau gweithredu gan y gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **1.** | Dywedwyd wrthym nad oedd pob claf yn cael copi o'r canllaw i gleifion. | Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod pob claf yn cael copi o'r canllaw i gleifion. | Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011<br>7(2) | Bydd pob claf newydd yn cael copi o'r canllaw i gleifion yn ystod ei ymgynghoriad cychwynnol. | Rebecca Davies | Ar unwaith/parhaus. |
| **2.** | Gwnaethom nodi nad oedd tystiolaeth bod ymarferion tân yn cael eu cynnal. | Rhaid i'r rheolwr cofrestredig roi proses ar waith i gynnal ymarferion tân yn rheolaidd, gan ddogfennu tystiolaeth. | Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011<br>26(4)(d) | Mae gweithdrefn ymarfer tân wedi'i rhoi ar waith. Bydd ymarferion tân yn cael eu cynnal a'u dogfennu bob chwe mis. | Rebecca Davies | Wedi'i rhoi ar waith ar unwaith, a bydd yn cael ei hadolygu bob chwe mis |
| **3.** | Nid oedd tystiolaeth wedi'i dogfennu o waith glanhau ar gael. | Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod gwaith glanhau rheolaidd yn yr ystafell drin yn cael ei ddogfennu. | Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011<br>26(2)(a) | Mae amserlen lanhau ddyddiol a chofnodlyfr glanhau wedi'u cyflwyno. Bydd y rhain yn cael eu llofnodi ar ôl iddynt gael eu cwblhau. | Rebecca Davies | Ar unwaith/parhaus. |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **4.** | Nid oedd unrhyw archwiliadau atal a rheoli heintiau wedi'u dogfennu ar gael. | Rhaid i'r rheolwr cofrestredig roi archwiliadau atal a rheoli heintiau ar waith i'w cwblhau yn rheolaidd. | Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011<br>19(1) | Mae archwiliad atal a rheoli heintiau wedi'i ddatblygu a'i roi ar waith. | Rebecca Davies | Wedi'i roi ar waith ar unwaith, a bydd yn cael ei adolygu bob chwarter. |
| **5.** | Nid oedd unrhyw dystiolaeth i ddangos bod sbectolau amddiffynnol yn cael eu gwirio a'u glanhau cyn eu defnyddio. | Rhaid i'r rheolwr cofrestredig ddogfennu'r gwiriadau a gaiff eu cwblhau ar y sbectolau amddiffynnol a'r gorchuddion llygaid cyn rhoi triniaeth. | Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011<br>15(8)(c) | Mae cofnodlyfr glanhau ac archwilio sbectolau amddiffynnol wedi'i gyflwyno. Bydd sbectolau amddiffynnol yn cael eu gwirio, eu glanhau a'u dogfennu cyn pob triniaeth. | Rebecca Davies | Ar unwaith/parhaus. |
| **6.** | Nid oedd gwiriadau sicrhau ansawdd ar y peiriant laser wedi'u dogfennu. | Rhaid i'r rheolwr cofrestredig ddogfennu bod gwiriadau'n cael eu cwblhau ar y peiriant laser cyn rhoi triniaeth. | Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011<br>15(8)(c) | Mae cofnodlyfr sicrhau ansawdd wedi'i roi ar waith ar gyfer y peiriant laser. Bydd gwiriadau'n cael eu cwblhau cyn pob triniaeth. | Rebecca Davies | Ar unwaith/parhaus. |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **7.** | Nid oedd cofrestr triniaethau ar waith ar gyfer y peiriant laser, ac roedd rhywfaint o wybodaeth ar goll yn nodiadau cleifion. | Rhaid i'r rheolwr cofrestredig roi cofrestr triniaethau ar waith a chynnwys yr holl wybodaeth sydd ei hangen yn nodiadau cleifion. | Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011<br>45(2) | Mae cofrestr triniaethau laser wedi'i chyflwyno ar gyfer y peiriant laser ac mae bellach yn cael ei chwblhau ar gyfer pob triniaeth. Mae cofnodion pob claf wedi'u hadolygu, a bydd yr holl wybodaeth ofynnol yn cael ei dogfennu. | Rebecca Davies | Ar unwaith/parhaus. |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd o'r gwasanaeth sydd â chyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol am sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

**Cynrychiolydd y gwasanaeth: Rebecca Davies**

**Enw (priflythrennau): Rebecca Davies**

**Swydd: Rheolwr Cofrestredig** **Dyddiad: 20/06/2026**